**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth**
**Minister for Skills and Science**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

18 Tachwedd 2016

Annwyl Russell

Tra oeddwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Iau 3 Tachwedd, addewais y byddwn yn darparu gwybodaeth bellach ar ddwy elfen ynghylch cyllid ar gyfer fframwaith y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, a manylion y cyllidebau o ran cyflogadwyedd a sgiliau.

**Cyllid ar gyfer Fframwaith y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol**

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o'r farn bod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hanfodol, a bod angen iddynt gael eu cynnal. Mae ein cyllid yn rhan o drefniant teirochrog i sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio'r Safonau fel sail i'n systemau gwahanol o ran sgiliau a phrentisiaethau, sy'n cael eu cefnogi gan gyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod cymhwysedd galwedigaethol dysgwyr yn berthnasol ac yn drosglwyddadwy ar draws rhanbarthau, cenhedloedd a sectorau. Rwy'n darparu Cymorth Grant gwerth £300,000 y flwyddyn tuag at gomisiynu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol – gwaith a wneir ar y cyd gan y tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig – sef yr opsiwn mwyaf cost effeithiol o gefnogi gweithgareddau'r Safonau. Os bydd gostyngiad mewn cyllid ar gyfer y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, ni fydd yn bosibl ymgymryd â'r adolygiadau a'r datblygiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y system addysg alwedigaethol yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Byddai unrhyw ostyngiad hefyd yn mynd yn groes i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol a'r ymrwymiad a wnaed yn ddiweddar gan Weinidogion Sgiliau'r Gweinyddiaethau Datganoledig i barhau i gefnogi'r Safonau.

**Dyraniadau'r gyllideb ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd**

Fel y soniais yn y Pwyllgor, mae gwaith yn cael ei wneud o fewn fy mhortffolio i ddatblygu cynllun cyflogadwyedd, a fydd yn nodi'r camau gweithredu y bydd y llywodraeth yn eu cymryd i gyflawni ein hymrwymiad yn Symud Cymru Ymlaen i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd. Fe wnaeth fy natganiad ar 15 Tachwedd ddarparu manylion pellach am yr amserlen ar gyfer datblygu'r cynllun cyflogadwyedd a'r themâu y bydd yn canolbwyntio arnynt. Rwy'n dal i fwriadu cyhoeddi'r cynllun newydd yn nes ymlaen eleni, ac o ganlyniad i'r gwaith hwn sy'n mynd rhagddo, ni fydd dyraniadau'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyllideb ar gyfer rhaglenni unigol yn cael eu cadarnhau tan yn nes ymlaen y flwyddyn ariannol hon. Byddaf yn cyflwyno'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd yn barod.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth
Minister for Skills and Science